



## Y COFIO HEDDIW

Mae'r Cofio yn y DU heddiw yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd 100 o flynyddoedd yn ôl. Mae modd i bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddiwyddiadau'r Cofio, beth bynnag fo eu credoau gwleidyddol neu grefyddol. Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol yn cynhyrchu tocynnau arbennig y Cofio er mwyn sicrhau bod modd i bobl heb ffydd a'r rhai y mae ganddynt wahanol fathau o ffydd gofio unigolion - teulu, ffrindiau ac anwyliaid - yn eu ffordd eu hunain. Yn ogystal, mae'r Llang yn trefnu digwyddiadau Cofio, yn rhai ffurfiol ac anffurfiol ac yn rhai bach a mawr, ar draws y DU, gan gynnwys pobl o ystod eang o gymunedau y byddant yn cyflawni rôl gweithredol yn y Cofio ac y bydd modd iddynt deimlo'n rhan o'n treftadaeth ar y cyd wrth Gofio.

Mae'r pabi yn parhau i fod yn symbol gwylaidd, niwtral a chyffredinol o Gofio ac o obaith. Mae'n aml yn cael ei gamddeall, ond fodd bynnag, caiff ei wisgo gan filiynau bob blwyddyn. Yn yr Alban, mae'r pabi sy'n cael ei wisgo ychydig yn wahanol i'r un sy'n cael ei wisgo yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn Iwerddon, mae'r pabi yn cael ei ystyried fel symbol gwleidyddol cryf o hyd ac yn destun cynnen, fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae pobl wedi bod yn eu prynu ac yn eu gwisgo yno.

Mae'r Llang Brydeinig Frenhinol wedi lansio Ymgych y Pabi ar gyfer y Canmlwyddiant, gyda'r nod o orchuddio'r DU mewn pabiau coch trwy gydol Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y pabi yn symbol o Gofio 100 mlynedd yn ôl ac mae'n parhau i fod yn symbol o'r fath heddiw, ond gyda gobaith o'r newydd am ddyfodol mwy heddychlon a disglair. Mae pob pabi yn helpu'r Llang Brydeinig Frenhinol i gynorthwyo Cymuned y Lluoedd Arfog, o'r gorffennol a'r presennol, a'u teuluoedd.

# COFIO A'R PABI:

## Y GORFFENOL, Y PRESENNOL A'R DYFODOL



Yn ei dro, gwnaeth cerdd McCrae ysbrydoli academydd o America, Moina Michael, i greu pabiau sidan coch â llaw, ac fe'u cludwyd i Loegr gan Ffrances, Anna Guerin. Archebodd y Llang Brydeinig (Frenhinol), a sefydlwyd ym 1921, 9 miliwn o'r pabiau, a bu'n eu gwerthu ar 11 Tachwedd y flwyddyn honno. Gwerthwyd y pabiau i gyd bron ar unwaith, a llwyddodd "Apêl y Pabi" cyntaf hwnnw i godi dros £106,000, a oedd yn swm enfawr y pryd hwnnw. Yn ystod y flwyddyn ddilynol, penderfynodd Uwchgaptan George Howson, a oedd wedi cael y Groes Filwrol am ei rôl yn y Rhyfel Byd Cyntaf, sefydlu ffatri oddi ar Old Kent Road yn Llundain, lle y dechreuodd pum cyn-filwr anabl gynhyrchu pabiau. 3 blynedd yn ddiweddarach, symudodd y Ffatri Pabiau i'w safle presennol yn Richmond, Surrey ac erbyn heddiw, mae'n cynhyrchu miliynau o babiau bob blwyddyn.

Roedd cymaint o alw am babiau ym 1922 fel nad oedd llawer ohonynt yn cyrraedd yr Alban. Sefydlodd gwraig Iarll Haig "Ffatri Pabiau Arglwyddes Haig" yng Nghaeredin er mwyn cynhyrchu pabiau ar gyfer yr Alban yn unig. Mae dros 5 miliwn o babiau Albanaidd (y maent yn cynnwys pedwar petal a dim deilen, yn wahanol i'r pabiau yng ngweddill y DU) yn cael eu cynhyrchu â llaw o hyd gan gyn-filwyr anabl yn Ffatri Pabiau Arglwyddes Haig bob blwyddyn.



Dadorchuddio'r Senotaff, Whitehall ym 1921

For further details on The Royal British Legion, visit [www.britishlegion.org.uk](http://www.britishlegion.org.uk) or call us on **0808 802 8080**

Photographs and images used with the kind permission of:

Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol  
Deon a Glwysgor San Steffan  
National Memorial Arboretum  
Elliot Payne



The Royal British Legion, Haig House, 199 Borough High Street, London SE1 1AA. Charity Registration No. 219279. PoppyScotland is a member of The Royal British Legion group of charities, and is a trading name of The Earl Haig Fund Scotland. Scottish Charity No. SC014096. A Company limited by guarantee. Registered in Scotland No. 194893 at New Haig House, Logie Green Road, Edinburgh EH7 4HR.







John McCrae



Mae Cofio yn rhan o fywyd, diwylliant a threftadaeth fodern Prydain. Mae'n nodwedd benodol o'r calendr cyhoeddus ar neu o gwmpas Sul y Cofio ac 11 Tachwedd, Diwrnod y Cadoediad, bob blwyddyn. Dyma'r adeg pan fydd digwyddiadau Cofio cyhoeddus, preifat, ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu cynnal ar draws y DU. Bob blwyddyn, bydd miliynau o bobl yn stopio'r hyn y maent yn ei wneud, gan fod yn Ddistaw am Ddwy Funud am 11am ar yr unfed diwrnod ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg, gan gofio'r Cadoediad gwreiddiol ym 1918, a oedd yn dynodi "Ilonyddu'r arfau" ac a arweiniodd at ddiwedd ffurfiol y Rhyfel Byd Cyntaf (a lofnodwyd o'r diwedd ym 1919). Dosbarthir dros 40 miliwn o bapiau gan y Lleng Brydeinig Frenhinol bob blwyddyn ar ddiwedd mis Hydref a than 11 Tachwedd. Mae pob pabi yn symbol o'r Cofio ac yn symbol o obaith, ac mae miliynau o bobl yn dewis gwisgo un.

## MAE'R PABI...

- Yn symbol o'r Cofio ac o obaith
- Yn cael ei wisgo gan filiynau o bobl
- Yn goch oherwydd lliw naturiol papiau

## NID YW'R PABI...

- Yn symbol o farwolaeth
- Yn dynodi'r ffaith bod rhywun yn cefnogi rhyfel
- Yn adlewyrchiad o wleidyddiaeth neu grefydd
- Yn goch er mwyn dynodi lliw gwaed

## MAE GWISGO PABI...

- yn ddewis personol
- yn adlewyrchu atgofion unigol a phersonol
- yn rhywbeth y bydd pobl yn ei wneud o'u gwirfodd
- yn cael ei werthfawrogi gan y rhai y mae'n eu helpu

## STORI'R PABI

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (1914 – 1918), gwelwyd cryn dipyn o'r ymladd yn digwydd yng Ngorllewin Ewrop. Roedd ardaloedd gwledig yr oeddent wedi bod yn brydferth yn flaenorol wedi cael eu ffrwydro a'u bomio, a buont yn destun ymladd drosodd a throsodd. Gwelwyd y tirlun yn troi'n gaeau o fwd yn gyflym, ac yn fannau llwm a diffaith lle na allai fawr ddim neu unrhyw beth dyfu. Roedd papiau coch llachar Fflandrys (Papaver Rhoeas) fodd bynnag, yn flodau bregus ond gwydn, ac fe'u gwelwyd yn tyfu yn eu miloedd, gan lewyrchu hyd yn oed yng nghanol yr anrhefn a'r dinistr. Yn ystod y gwanwyn 1915, yn fuan ar ôl colli ffrind yn Ypres, ysbrydolwyd meddyg o Ganada, Lefftenant-Cyrnol John McCrae, gan y papiau i ysgrifennu cerdd y mae bellach yn enwog, o'r enw "In Flanders Fields":

In Flanders fields the poppies blow  
Between the crosses, row on row,  
That mark our place; and in the sky  
The larks, still bravely singing, fly  
Scarce heard amid the guns below.

We are the Dead. Short days ago  
We lived, felt dawn, saw sunset glow,  
Loved and were loved, and now we lie  
In Flanders fields.

Take up our quarrel with the foe:  
To you from failing hands we throw  
The torch; be yours to hold it high.  
If ye break faith with us who die  
We shall not sleep, though poppies grow  
In Flanders fields.



Bedd y Milwr Anhysbys



Moina Michael